‘Mae Iesu yn dod - ymddangoswch yn brysur?’

Mrs Naomi Starkey

Cyflwyniad

Un o’r pethau rwy’n ei garu ynglŷn â symud i Gymru yw'r ffordd mae’r ardal wledig yn ymdonni! Wedi byw bob amser mewn mannau gwastad perthnasol, rwyf yn awr yn trigo mewn byd o ddyffrynnoedd a bryniau rhyfeddol. Rwyf wedi cymryd beicio mewn ffordd mwy difrif gan fwynhau llafurio i ben bryn neu symud yn rhwydd ar hyd crib gan ddarganfod golygfa cwbl newydd yn agor i fyny, efallai ddyffryn cyfan na wyddwn ddim amdano. Weithiau byddaf yn gyrru ar hyd ffordd wahanol i’r arferol gan fwynhau’r olygfa wahanol ar yr hyn sy’n dod yn gyfarwydd (fel cymryd ffordd gefn o’r Drenewydd y diwrnod o’r blaen, a gorfod aros ac edrych ar y map oherwydd nad oeddwn yn adnabod y bryniau o’r pellter…).

Gwerth diwrnod tawel yw'r cyfle mae’n ei gynnig i gamu’n ôl a chael golwg ffres ar ein harferion - neu hyd yn oed ddarganfod rhyw fath o ddyffryn cuddiedig’, rhyw fan annisgwyl i gael adfywiad. Fe all fod yn hanfodol i aros yn egniol yn ein gwaith, oherwydd os yw ein harferion yn parhau’n ddi-dor, wythnos ar ôl wythnos, mis ar ôl mis, yna fe allwn deimlo wedi ein gorlethu gan fanylder a dechrau colli ein gafael ar yr hyn sydd fwyaf pwysig nid yn unig yn ein gwaith, ond yn ein perthnasau gyda ffrindiau a theulu a - yn hanfodol - gyda Duw.

Yn draddodiadol, mae Adfent yn amser i adlewyrchu ar ail ddyfodiad Iesu i derfynu hanes daearol gan wneud teyrnas Dduw yn weledig sydd yn awr yn guddiedig. Fe all ein hymateb i hyn adlewyrchu rhywbeth o’r teitl am y diwrnod tawel hwn (a gymerwyd oddi ar slogan magnet oergell): ‘Rydych yn dweud fod Iesu’n dod? Gwell felly inni gadw ein pennau i lawr’. Fe allwn deimlo mor orlethedig gan brysurdeb tymor y Nadolig fel bod gennym ofn na allwn fforddio hyd yn oed i aros i gael ein gwynt, gan fod y dasg nesaf yn ymddangos ar y gorwel. Perygl y fath ymatebion yw y gallwn wegian ymlaen hyd at ar ol y cinio Nadolig ac yna sylweddoli ein bod wedi colli unrhyw ymwybyddiaeth o bwy neu beth y buom yn ei ddathlu, rhyw fath o ennyd ‘a’i dyna hi?’

Dyma gyfle, felly, i seibio a llorio ein hunain unwaith eto yn Nuw; ac wedi gwneud hyn, a phopeth yn iawn, byddwn yn teimlo’n well i fynd ymlaen a pharhau i roi allan…

Sesiwn Un: *Gwneud gwaith Duw*

Mae unrhyw weinidogaeth Gristionogol yn tueddu i gael tanwydd, o leiaf yn sylfaenol, gan ddelfrydau a mwy na chyffyrddiad o arwriaeth. Fe allwn deimlo ein bod ar genhadaeth i newid y byd neu o leiaf i drawsnewid ein rhan ni ohono; gan ddibynnu ar ein hoedran a'n profiad, gallwn hyd yn oed yn argyhoeddedig feddwl y gallwn wneuthur hynny! Fe dyfais innau i fyny mewn awyrgylch o'r fath, nid yn unig gyda thad a brawd wedi eu hordeinio, ond hefyd gyda phedwar taid a nain wedi treulio blynyddoedd fel cenhadon yn Nwyrain Affrica, gan aberthu cyfleoedd gyrfa gonfensiynol, sicrwydd ariannol, ac mewn rhai achosion eu hiechyd ar gyfer gwaith Duw. Ym maes fy hunan o argraffu, rwy'n cyfaddef y teimlir hi'n fwy o fyd ysgytiol i olygu llyfrau ar ffydd, darllen y Beibl, gweddi a materion perthnasol, nac yw pysgota, badminton, neu greiriau meddal (sydd, wrth gwrs, yn berffaith dda ynddynt eu hunain!).

Yr ochr ergydiol i'r ymwybyddiaeth hon o genhadaeth neu ddynghedfen yw - yn drist - dadrithiad. Nid yw pethau'n gweithio allan fel gwnaethom obeithio, am ba bynnag reswm. Ie, rydym yn gwneud gwaith Duw ond fe ddarganfyddwn ein hunain yn cael ein rhwystro gan ddiffyg arian, amser, a (efallai'r caletaf o'r cyfan) difaterwch, yr ymateb sy'n dweud 'Dyna neis, os ydych yn hoffi'r math yna o beth, ond nid yw ar fy nghyfer i…'. Fe allaf gyhoeddi yr hyn a dybiwn i fel llyfr i newid bywyd ar weddi ond gwell fyddai gan y rhan fwyaf o bobl ddarllen y peth diweddaraf o'r Iorddonen (a nid wy'n golygu ysbrydolrwydd yr anialwch o wledydd y Dwyrain Canol, ychwaith). Fel y cyrhaeddwn ganol oed, yn enwedig, gallwn edrych yn ol dros y blynyddoedd a meddwl os wnaethom gymryd y penderfyniadau cywir ar hyd y ffordd, ac yn y diwedd, yn werth chweil.

Gall fod yn ddigalon i aros a gofyn i ni ein hunain 'Beth yw pwynt yr hyn a wnaf?' Efallai fod gennym ofn ffurfio'r fath gwestiwn rhag ofn inni gasglu fod y cyfan, mewn ffaith, yn ddibwrpas, a bod ni'n gwastraffu ein hamser. Ond os na wnawn ofyn y cwestiwn, yna fe all ein poeni ni, gan godi i'n trwblu ni ar ennyd ddwl o'r dydd neu pan ddeffrown yng nghanol y nos. Os oedwn i archwilio sylfeini ein gwaith a'n gweinidogaeth, yna fe allwn fel ffaith ganfod bendith wrth adennill rhywbeth o'r gwelediad y 'darlun mawr' neu ar ben bryn.

Fe allwn ofyn i'n gilydd: 'beth mae'n ei olygu i FI wneud gwaith Duw'? 'Beth yw natur neilltuol FY ngalwad?' A thros amser, bydd yr atebion i'r cwestiynau hyn yn newid, fel y bydd amgylchiadau ein bywyd a'n blaenoriaethau yn newid. Mae cwestiynau anferthol o'r fath yn anorfod yn rhy fawr i ni eu swmio i fyny mewn ychydig o funudau ond wrth inni eu hystyried, gall y meddyliau hyn ddarparu rhyw gyswllt ddefnyddiol:

- Pwysigrwydd ufudd-dod

Mae llawer o bwyslais y dyddiau hyn ar hunan-sylweddoli, sydd mewn llawer ffyrdd yn beth da. Gall hunan-wybodaeth gywir ein cynorthwyo i wneud y gorau o'n doniau gan ddarganfod cyswllt lle medrwn ffynnu. Yn y gorffennol, roedd 'hunanymwadiad' yn rhy barod yn cael ei bresgribio i rai ac nid i eraill - merched, er enghraifft (tystiolaeth i nifer fechan o ferched sy'n arlunwyr, cyfansoddwyr a hyd yn oed ysgrifenwyr yn y cyfnodau cynharach) neu'r tlodion (nid ydym mwyach yn canu'r pennill o'r emyn *Popeth Hardd Sydd yn y Byd* am 'y pendefig yn ei gastell, a'r tlotyn wrth ei borth'…). Wedi dweud

hyn, mae yna berygl heddiw i anghofio pwysigrwydd ufudd-dod, ac nad yw ein bywydau yn eiddo ni ein hunain ond yn rodd gan Dduw. Mae'n rhaid inni yn gydwybodol - ac yn weddigar a gostyngedig - gynnig ein hunain i wasanaeth Duw bob dydd, gan ofyn iddo Ef ein harwain ni i'r gwaith sydd eiddom ni i'w geisio, gan dynnu ar yr hyn ydym, beth ydym wedi ei ddysgu ynglŷn â ni ein hunain, beth sy'n ein hysbrydoli ac yn y blaen.

- Pwysigrwydd bod yn ystyriol

Dylem fod yn ystyriol na chawn fyth wybod sut mae ein bywydau yn ei ehangder llawn wedi effeithio eraill. Yn aml daw hyn ond yn eglur ar ol marwolaeth rhywun, pan fydd rhestr marwolaethau yn rhoddi darlun llawn o'r cyfan a gyflawnwyd ganddynt. Yn wir, gall rhywun ddweud wrthym sut wnaeth 'eich pregeth/sgwrs gyda chi/y cyfarfod hwnnw newid fy mywyd' - ac efallai nad ydym yn ei gofio'i gyd. Felly, mae'n bwysig ein bod yn meithrin agwedd o fod yn agored i anogaeth ysbryd Duw, y 'cryndod' yn ein colonau, (sy'n nodweddiadol o ysbrydolrwydd y Crynwyr) ddylai (gyda dirnadaeth, wrth gwrs) ein hannog i lefaru neu i weithredu. Os ydym yn agored i'r cyfleoedd sy'n dod yn ein ffordd, gall cyfle ein cyfarfod fyddai'n gorffen drwy newid eu bywyd, er inni efallai beidio clywed am y canlyniad. Efallai mai dyma beth mae 'barn Duw' yn ei olygu: mai rhyw ddydd, ym mhresenoldeb y Duw cariad, a maddeugar, y cawn dderbyn dealltwriaeth llawn o effeithiau ein bywydau yn y byd - mewn termau o ddaioni a hefyd mewn termau o niwed. Mae'r cyswllt o ddealltwriaeth yn aros, fodd bynnag, yn bresenoldeb nefol o gariad a maddeuant…

- Pwysigrwydd cynhaliaeth

Os nad ydym yn meithrin ffordd gynhaliol o fyw, yna rydym yn peri perygl o orffen i fyny fel planhigyn pot wedi ei sychu i fyny, a'r pridd mor sych fel na all ymgymryd dwr bywiol. Mae gweinidogaeth gynhaliol wedi ei wreiddio mewn adnabod ein hunain, ein cryfderau a'n gwendidau, ond hefyd beth sy'n ein cynnal ni ac yn ein disbyddu. Bydd rhai yn mwynhau ymgyfarfod bugeiliol tra bo eraill yn cael eu hegnio drwy bregethu pregeth. Bydd rhai yn hoffi cario ymlaen gyda thasgau gweinyddol, tra bo eraill yn hoffi ymbalfalu gyda grŵp er mwyn cynhyrchu syniadau ar gyfer gwaith ieuenctid neu beth bynnag. Hefyd, mae cynhaliaeth yn golygu sicrhau ein bod yn gadael lle mewn dyddiadur i gael hwyl, ym mha bynnag ffordd y mwynhawn orau a bod hynny'n bosibl yn ein hamgylchiadau presennol. Dylem hefyd ofyn i ni ein hunain o dro i dro os yw ein gwaith yn creu disgwyliadau annynol arnom - ac efallai, wrth geisio datrys y fath ddisgwylion, ein bod mewn perygl o anghofio mai dynol ydym wedi'r cyfan.

<u>Ymborth i'r meddwl</u>

<u>O'r Beibl</u>: 'O flaen pob peth, cadwch eich cariad at eich gilydd yn llawn angerdd, oherwydd y mae cariad yn dileu lliaws o bechodau. Byddwch letygar i'ch gilydd heb rwgnach. Yn ol fel y derbyniodd pob un ohonoch ddawn, defnyddiwch eich dawn yng ngwasanaeth eich gilydd, fel gweinyddwyr da amryfal ras Duw. Os yw dyn yn llefaru, llefared fel un sydd wedi derbyn oraclau Duw; os yw'n

gwasanaethu, gwasanaethed fel un sydd wedi derbyn o'r nerth y mae Duw yn ei gyfrannu. Yr amcan ym mhob dim yw gogoneddu Duw trwy Iesu Grist. Iddo ef y perthyn y gogoniant a'r gallu byth bythoedd. Amen.
1 Pedr 4:8-11 (BCN)

I adlewyrchu: 'Pan fydd yr Oen yn torri'r sêl llyfr y gwir hanes, fe ganfyddwn fod holl ffrwythau hanes yn ganlyniad o deyrnasiad anghydnabyddedig y saint. Fe ganfyddwn fod brwydrau wedi bod yn llai pwysig na chri galwad y digllon a'r trallodus ar Dduw, galwad Job a llawer yr un fath ag ef, a gweddi ffydd y publican…' (Olivier Clement: *Ar Fod yn Ddynol*)

I wneud (os ydych eisiau)

- Beth ystyriech chi i fod yr hyn a gyflawnasoch orau?
- Beth dybygwch chi yw eich methiant mwyaf?

Dewch a'r ddau gerbron Duw mewn gweddi. Yna arhoswch a gweld beth a gyfyd yn eich calon…
Yn awr gwnewch yr un fath a:

- Eich gobaith mwyaf
- Eich ofn mwyaf

Sesiwn Dau: *Byw fel plant i Dduw*

Sawl gwaith yr ydym wedi gweddïo 'Ein Tad?' Mae'r Efengylau yn dangos Iesu yn dod a'r datguddiad llawnaf o Dduw fel Tad i'r byd, ond wrth gwrs mae'r fath ddelwedd yn rhedeg drwy'r Hen Destament hefyd, gyda Duw yn cael ei ddychmygu mewn gwahanol fannau fel ffigurau tad a mam. Mae'n ddefnyddiol weithiau i aros ac adlewyrchu ar gynnwys y fath iaith, o'r hyn mae'n ei olygu y gallwn adnabod Duw fel tad nefol cariadus. Bydd rhai yn cilio'i ffwrdd oddi wrth yr hyn maent yn ystyried yn iaith gyfarwydd agos am Dduw. Gan ofyn 'a oes gennych berthynas agos gydag Iesu?', sydd yn gwestiwn ddigon cyffredin mewn rhai rhannau o'r Eglwys, a all swnio mor annhebygol a gofyn 'a'i Iesu yw eich cariad'. A yw'r syniad am Dad nefol yn golygu gall Duw gael ei ystyried fel 'ffrind gorau' inni gael sgwrs (fel rwyf wedi clywed pobl weithiau yn disgrifio eu bywyd o weddi: 'dwedaf wrth Dduw a dwedodd Duw wrthyf fi')? Mewn cyferbyniad, mae ysbrydolrwydd apophatig (o'r Groeg 'i ymwadu') yn arbennig o bwysig yn Eglwys y Dwyrain, sy'n cael ei gymeriadu gan y safbwynt y gall Duw ond cael ei ddisgrifio mewn termau o'r hyn nad yw Duw, gan fod y dwyfol uwchlaw pob categori dynol ac iaith. Gall hyn gwiro y tueddiad i or-ddynoli Duw, a hefyd orffen i fyny'n teimlo braidd yn oer ac unig…

Y gwir yw y gallwn ffugio bod yn gyfarwydd â Duw. Gallwn roi'r argraff i'n cynulleidfaoedd, cyfeillion, a hyd yn oed aelodau o'n teulu ein bod yn 'adnabod Duw', neu o leiaf siarad yn gyfrinachol am wybod lle rydym yn sefyll mewn perthynas â Duw ond yn gyfrinachol fe wyddom ein bod yn aros mewn man diffaith a gwag , efallai hyd yn oed yn dioddef 'noson ddu yr enaid'. Yn llym, dyma ddatguddiwyd i fod yn sefyllfa y Fam Teresa o Calcutta. Fe barhaodd hi i wasanaethu, gofalu, a thystio i gariad Duw dros lawer o flynyddoedd, ond heb unrhyw ymwybyddiaeth o'r cariad hwnnw iddi ei hun.

I'r gwrthwyneb, efallai ein bod wedi llwyddo i dwyllo ein hunain fod gennym ffydd fywiog a chryf, popeth yn iawn - ac yna mae bywyd yn dechrau. Fe wnawn ddioddef profedigaeth, torri i fyny, salwch, beth bynnag… ac yna edrych oddi mewn a sylweddoli ein gwacter mewnol am y tro cyntaf.

Un o baradocsiau arbennig ein ffydd yw ein bod yn gallu swmio'i fyny'r newyddion da mewn un adnod Feiblaidd (Ioan 3:16, er enghraifft) ond ar yr un pryd bod yn ymwybodol mai yr hyn a wnawn yw cyfarfod a'r Duw anfeidrol. Nid ydym byth yn dod i ddiwedd Duw: ni allwn amgylchynu'r hyn sydd i wybod a'i brofi am Dduw. Ar ddechrau ein taith Gristionogol, efallai nad oes gennym ond ffydd fechan, frau ond fe all dyfu a newid fel y tyfwn a newid drwy ein bywydau. Mae'r fath dyfiant a newid yn cynnwys ail-arholi ein syniadau am y Duw sydd wedi ei ddatguddio inni fel Tad, oherwydd na allwn obeithio deall beth mae'n ei olygu i fod yn blant i Dduw os na wnawn geisio ymchwilio'n fwyfwy am Dduw. Mae hwn yn bwnc eang (anfeidrol) ond, fel o'r blaen, dyma rhai syniadau i ddarparu cyswllt i adlewyrchu.

- Gallwn ymddiried

Nid yw'r Duw rydym yn ceisio ei adnabod yn ysbryd natur ddamweiniol nac ychwaith yn rym anadnabyddus. Fe all fel y dengys Hebreaid 10.31 'Peth dychrynllyd yw syrthio i ddwylo'r Duw byw', ond mae ein Duw ni wedi ei ddatguddio yn bennaf ym mherson a gwaith Iesu yn ogystal ag ar

draws yr Ysgrythur a hefyd ym mhrofiad pobl Dduw i lawr y canrifoedd, nid lleiaf yn ein heglwysi ni ein hunain, pan ymgynullwn i addoli wythnos ar ol wythnos. Gallwn hefyd ddysgu llawer am Dduw oddi wrth ein gilydd, yn enwedig oddi wrth y rhai sydd ymhellach ymlaen yn eu ffydd na ni. Dyma un rheswm paham fod cyfarfod i astudio'r Beibl gyda'n gilydd mor bwysig ar gyfer adeiladu Eglwys iachus leol, nid yn unig am ei bod yn dysgu ni mwy am Dduw ond mae'n ein galluogi i rannu ein profiadau am Dduw yn ein llawenydd a'n tristwch. Mae'r fath rannu yn ymwneud a pharodrwydd i fod yn wan - er y gall fod yn anodd - ond bydd llawer o gyfoeth yn cael ei ddarganfod yn y broses.

- Gallwn ddyheu

Yn Jeremeia 29:13 - 14 fe ddarllenwn: 'Fe'm ceisiwch a'm cael; pan chwiliwch a'ch holl galon fe'm cewch medd yr Arglwydd'… Mae'n ymddangos fod yr Arglwydd yn chwarae cuddio gyda'i bobl! Ni wnaent ei ganfod oni bai eu bod yn dyheu amdano, ac mae'n rhaid i ninnau hefyd fod yn fwriadol ynglyn a dysgu am ein Duw. Byddai Tadau yr anialwch (a Mamau) o'r drydedd ganrif ymlaen yn cilio i'r anialwch i weddïo, gan adlewyrchu a cheisio Duw, gan fod yn rhydd oddi wrth unrhyw beth i gymryd eu sylw - fel mae pobl yn ei wneud heddiw drwy ymuno a chymunedau crefyddol. Mae'n hawdd meddwl 'ni allaf wneud unrhyw beth…rwy'n rhy brysur rhy gaeth i ymroddiadau blaengar' - ond fe allwn geisio Duw ym mha le bynnag a sut bynnag yr ydym yn gallu, gan gofio nad yw'n gorfodi ei hun arnom. Ar yr un pryd, gallwn edrych yn ol dros ein bywydau a sylweddoli sut wnaeth Duw ein tynnu ato ym mhob math o ffyrdd, fel ym marddoniaeth '*The Hound of Heave'*. Mae'n disgwyl i ni edrych i fyny a sylwi ei fod yna wrth ein hochr.

- Gallwn ddyfalbarhau

Fy hen arwyddair ysgol oedd (yn Ffrangeg; Tyfais i fyny yn Jersey!) 'gadewch i ni ddyfalbarhau'. Nid oedd yn golygu llawer i mi ar y pryd, ond yn awr rwy'n gweld y syniad o ddyfalbarhau yn un pwysig. Fel y parhawn ar hyd ffordd o ddisgyblaeth Gristionogol, mae Ysbryd Duw yn gweithio oddi mewn i ni, yn trawsffurfio ni yn bobl fel y bwriadwyd ni i fod, sydd fel (yn ffodus) mae ein Tad nefol yn ein gweld. Y term traddodiadol am y broses hon oedd 'sancteiddhad' ac os ydym yn onest, byddwn yn ymwybodol o faint mor bell sydd raid ei fynd cyn belled ag ydym ni yn y cwestiwn. Mae cyfryngau heddiw yn tueddu i ganolbwyntio ar yr 'instant makeover' o'r ardd, y tŷ, y corff a beth bynnag, ond mae newid dyfnach yn cymryd amser ac ar brydiau sydd ymhell o fod yn gyfforddus. Mae'n rhaid cyffwrdd a phethau sydd wedi eu gwreiddio'n ddwfn ynom os ydym am arbrofi trawsffurfiant parhaol ac iachâd. A fe all deimlo fel y tyneraf, cyffyrddiad mwyaf cariadus Duw - tua mor dyner â chwrs llym 'chemotherapi', gan ein gwneud i deimlo'n llawer iawn gwaeth cyn inni ddechrau dod yn well. Ond yn hyn oll, boed y profiad yn dyner neu'n llym, mae'n rhaid inni gofio nad ydym ar ben ein hunain. Mae Duw ei Hun, drwy ei Ysbryd, gyda ni fel y dyfalbarhawn ar ein taith.

Ymborth i'r meddwl

O'r Beibl. 'Gwelwch pa fath gariad y mae'r Tad wedi ei ddangos tuag atom; cawsom ein galw yn blant i Dduw, a dyna ydym. Y rheswm nad yw'r byd yn ein hadnabod ni yw nad oedd yn ei adnabod ef. Gyfeillion annwyl, yn awr yr ydym yn blant Duw, ac nid amlygwyd eto beth a fyddwn. Yr ydym yn gwybod, pan amlygir hynny, y byddwn yn debyg iddo, oherwydd cawn ei weld ef fel y mae. Ac y mae pob un sydd a'r gobaith hwn ganddo o'i fewn, yn ei buro ei hun, fel y mae Crist yn bur.'
1 Ioan 3:1-3 (BCN)

I adlewyrchu: 'Nid dyfais ddynol yw'r dyhead am Dduw; yn hytrach mae wedi ei roi yno gan Dduw. Y dyhead am Dduw mewn gwirionedd yw'r union bresenoldeb o Dduw.' (John O'Donohue: *Eternal Echoes*)

I'w wneud (os ydych eisiau)

- Sut ydych yn darlunio Duw? Pa ddelw feddyliol sy'n dod i'r meddwl? Rhywbeth fel eich hen brifathro? Barnwr yr Uchel Lys? Brenin neu Arlywydd? Taid caredig - neu un i'r gwrthwyneb? Grym elfennol fel gwynt neu dan? Mynydd - neu fôr? Gofynnwch i chi eich hunan sut ffurfiwyd y darlun hwnnw a sut gellid ei newid i amgylchu yr anfeidrol Dduw.
- Pa asbect o Dduw fel sy'n cael ei ddatguddio yn yr Ysgrythur sydd yn cyffwrdd eich calon a phaham? Meddyliwch am ei gyfiawnder, trugaredd, cariad, amynedd, grym, ffyddlondeb…. Hefyd, ceisiwch uniaethu pa asbect y canfyddwch yw'r anoddaf i ddod i delerau ag ef (a phaham).

Sesiwn Tri: *Yng ngoleuni teyrnas Dduw*

Yn y sesiwn olaf hwn, fe godwn i fyny y meddylfryd o'n sesiwn cyntaf ynglyn a phwysigrwydd meddylfryd, dysgu byw gyda 'phersbectif teyrnas'. Gallwn fod yn ymwybodol o'r ffaith ein bod yn byw ac yn gweinidogaethu yn awr yn nheyrnas Dduw, o dan deyrnasiad Duw a agorwyd gan farwolaeth ac atgyfodiad Iesu, er fod y deyrnas, mae'r deyrnasiad yn parhau i fod yn y broses o gael ei datguddio ar y ddaear. Ie, rydym yn gwneud gwaith Duw ond nid yw i fyny i ni ar ein pennau ein hunain.

Drwy gydol yr Ysgrythur fe ddarllenwn am ddyfodiad 'Dydd yr Arglwydd' pan fydd anghywiriadau yn cael eu gwirio, ffyddlondeb yn cael ei wobrwyo a gogoniant yr Arglwydd yn cael ei ddatguddio i bawb. Fel cafodd ei grybwyll ar ddechrau'r dydd, mae Adfent yn amser sy'n cael ei neilltuo yng nghalendr yr Eglwys er mwyn cofio mai un diwrnod y daw Crist yn ol, meddylfryd a barodd problem ym mywyd yr Eglwys Fore (gweler llythyrau Paul i'r Thesaloniaid) oherwydd bod credinwyr yn teimlo os oedd y dychweliad ar fin digwydd, pam fod rhaid gweithio? A dyma ni ddwy fil o flynyddoedd yn ddiweddarach, yn dal i fyw gyda'r meddwl am y dychweliad terfynol, oherwydd ein bod yn dal addewidion Duw yn wir.

Mae byw gydag ymwybyddiaeth weledigaeth y deyrnas nefol yn gallu cynnal ni yn ein bywydau personol ac yn ein gwaith. Mae yna dair ffordd, yn benodol, lle gellir gwneud hyn:

- Drwy achub ni rhag anobaith

Os ydym yn barod (a heb unrhyw amheuaeth hyd yn oed os nad ydym - gweler hanes Jonah), mae Duw yn ein defnyddio ni ar gyfer ei fwriadau, sydd yn llawer mwy nag y gallwn ddychmygu. Efallai ein bod yn cael ein digalonni gyda maint y dasg sydd o'n blaenau - maint bychan (a chynnydd oedran) y cynulleidfaoedd, diffyg arian, cyfrifoldeb gydag adeiladau - a meddwl sut caiff bwriadau Duw eu cyflawni. Gall gwybod ychydig am hanes fod yn ddefnyddiol yma: gallwn ddweud neu glywed eraill yn dweud 'Nid yw'r Eglwys yr hyn a arferai fod' ond nid oes raid inni edrych yn ol lawer o ganrifoedd i sylweddoli mai darlun bychan iawn yw hwn. Er enghraifft, roedd yr ardal o amgylch ystâd yr Hafod ger Aberystwyth yn ddigyfraith yn y ddeunawfed ganrif nes i'r clerigwyr ddianc. Yn ol yn y Canol Oesoedd, roedd plwyf Llangurig wedi cael ei ddad-ariannu gan y Sistersiaid a gymerodd ofal ohoni, gan adael i adeilad yr Eglwys i ddymchwel yn gyfan gwbl, fel nad oedd lle i addoli am filltiroedd. Wrth edrych yn ol i Oes y Saint, fe gofiwn am lawer o unigolion, sydd a'u henwau yn dal i gael eu coffau yn enwau'r Eglwysi Cymreig, a ymsefydlodd mewn ardal er mwyn tystio i gariad Duw a thynnu pobl i'r ffydd. Ac wrth gwrs pan feddyliwn am gyfnod y Testament Newydd, fe gychwynnodd yr Eglwys gydag ond 12 o bobl wedi eu dewis… Wrth edrych ymhellach, dylem adlewyrchu ar sut mae'r Eglwys fyd-eang wedi ffrwydro mewn tyfiant fel bod Cristionogion yn dod o Affrica a mannau eraill yn y byd datblygedig i weinidogaethu yn y DU. Gall Hanes ein hachub rhag anobaith os yw ein hamgylchiadau yn heriol!

- Drwy gynnal ein hymwybyddiaeth o bwrpas

Gall cam-ddarllen llyfr y Datguddiad arwain at gymryd 'llosgi'r ddaear ddrwg' yn ganiataol, tra bod 'y bobl dda yn cael eu cipio i fyny i'r nef' (cyfeirio at wall ddiwinyddol sy'n adnabyddus fel 'Yr Afiaith'). Fel mater o ffaith, yr hyn a ddarllenwn yn llyfr y Datguddiad yw disgrifiad o ddinas Duw yn dod i lawr i'r ddaear adnewyddedig, gan adleisio delwedd a welir yng ngwaith proffwydi'r Hen Destament mewn perthynas i'r addewid o adfer Israel ar ol y gaethglud. Yn yr ail ddyfodiad, fodd bynnag, mae'n llawer mwy na llythrennol, sef dychweliad corfforol ac ail adeiladu; mae yn symudiad i ddimensiwn newydd a thragwyddol, y datguddiad olaf o ogoniant Duw. A dyma beth sy'n rhoi pwrpas i ni yn awr; i weithio i ddatguddio'r gogoniant yn a thrwy yr Eglwys, sef corff Crist ar y ddaear, y symudiadau cyntaf o fudiad cyfan y nef yn dod i'r ddaear. Fe all swnio'n ffals iawn, ond mae ein gweinidogaeth yn ein heglwysi lleol yn ran hanfodol o ddatguddiad teyrnas Dduw. Wythnos ar ol wythnos, dydd ar ol dydd, fe weithiwn i gynorthwyo eraill gael cipolwg pellach o'r deyrnas honno a'i gogoniant - a chysylltu hynny gyda'i gilydd.

- Drwy atgoffa ein hunain am ein gwir gartref

Ein gwir gartref, fel dywed yr Ysgrythur wrthym, yw tŷ ein Tad - a nid yw hynny'n cyfeirio at rywbeth sydd ymhell i ffwrdd, mewn termau pethau dros dro neu le mewn amser neu ofod. Ffordd o siarad am fod ym mhresenoldeb Duw sydd yma yn awr, y foment hon, os ydym wedi ein tiwnio iddo. Gall 'tiwnio i mewn' wneud inni feddwl am chwilio tonnauaer ar gyfer gorsaf radio, ond mae presenoldeb Duw yn llawer mwy nag amlder gul y deuwn ar ei draws os ydym yn lwcus. Mae'n ymwneud a gwir realiti, sydd yn myned ymlaen o ddifrif yn y byd. Mae Duw ar waith a'n braint ni yw ymuno yn y gwaith hwnnw. Felly sut wnawn diwnio ein hunain, a datblygu ymwybyddiaeth o hyn oll? Y cymal poblogaidd, sydd wedi ei thynnu o destun Gristionogol glasurol, yw 'ymarfer presenoldeb Duw', gan greu agwedd o'r galon sydd yn dechrau mewn gweddi gan orffen wrth orffwys yn syml ym mhresenoldeb Duw. Mae datblygu'r fath agwedd, fel gweddigarwch, yn dasg oes ond hyd yn oed wedyn, dylem beidio meddwl amdano fel tasg. Ein hymateb i wahoddiad Duw, yw dweud 'ie' i'r cynnig dwyfol o berthynas o gariad ac ymroddiad tragwyddol.

<u>Ymborth i'r meddwl</u>

<u>O'r Beibl</u> '…oherwydd gwir yw gair yr Arglwydd, ac y mae ffyddlondeb yn ei holl weithredoedd. Bydded i'r holl ddaear ofni'r Arglwydd, ac i holl drigolion y byd arswydo rhagddo. Oherwydd llefarodd ef, ac felly y bu, gorchmynnodd ef, a dyma a safodd. Y mae llygaid yr Arglwydd ar y rhai a'i hofna, ar y rhai sy'n disgwyl am ei ffyddlondeb, i'w gwaredu rhag marwolaeth a'u cadw'n fyw yng nghanol newyn. Yr ydym yn disgwyl am yr Arglwydd; ef yw ein cymorth a'n tarian. Y mae ein calon yn llawenychu ynddo am inni ymddiried yn ei enw sanctaidd. O Arglwydd, dangos dy ffyddlondeb tuag atom, fel yr ydym wedi gobaith ynot.'
Salm 33:4, 8-9, 18-22 (BCN)

I adlewyrchu: 'I ddechrau'r dydd gyda gweddi yw darganfod o'r newydd y cwmpawd sy'n ein harwain adref drwy gydol y dydd - ac yfory ei ddarganfod eto'. (Andrew Jones: *New Daylight*: July 4, 2011)

I wneud (os ydych eisiau):
Rhowch gerbron Duw y cymunedau sydd dan eich gofal - neu yn rhannu cyfrifoldeb. Yn weddigar, ceisiwch uniaethu tri (neu ragor!) o fannau/ grwpiau/digwyddiadau lle synhwyrwch Dduw mewn rhyw ffordd yn eich gwaith. Gall y rhain fod ag ychydig neu ddim i wneud a'r Eglwys ond beth bynnag arddangoswch rywbeth o werthoedd y deyrnas. Diolchwch am yr hyn sydd yn digwydd ac adlewyrchwch yn weddigar ar yr hyn allwch ei wneud nid yn unig i annog y gwaith hwnnw ond dangos sut mae'n cysylltu gyda chariad Duw i'r byd.